Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026

Adroddiad Blynyddol 2026



Tachwedd 2026

“A thrwy gyngor a chytundeb y doethion
a ddaeth yno, archwiliwyd yr hen gyfreithiau,
gadawyd rhai ohonynt i barhau, diwygiwyd
eraill, a dilëwyd eraill yn gyfan gwbl,
a gosodwyd rhai eraill o’r newydd.”

Llyfr Iorwerth 1240

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG55583
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Diben yr adroddiad

1. Lluniwyd yr adroddiad blynyddol hwn o dan adran 2(7) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Mae'n crynhoi'r cynnydd a wnaed o dan raglen gyntaf y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru: Dyfodol Cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 (diwygiwyd Ionawr 2024) – y cyfeirir ati yn yr adroddiad hwn fel "Rhaglen 2021-2026".

2. Er ei fod wedi'i lunio ar ran Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth bresennol Cymru, mae'n crynhoi gweithgareddau a gyflawnwyd gan weinyddiaeth Llywodraeth Cymru rhwng 2021 a 2026. Yn fwy cyffredinol, mae'n ymwneud â gweithgareddau mewn perthynas â datblygu cyfraith Cymru yr ymrwymodd Llywodraeth Cymru iddynt o 2011 ymlaen.

3. Nodir hefyd pan fo gweithgareddau a ddechreuodd o dan raglen 2021-2026 yn parhau yn *Rhaglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd Cyfraith Cymru: 2026 i 2030*, a osodwyd gerbron y Senedd ar 21 Hydref 2026 ac y cyfeirir ati yn yr adroddiad hwn fel "Rhaglen 2026-2030".

Paratoi a gosod Rhaglen 2021-2026

4. Gosodwyd Rhaglen 2021-2026 gerbron y Senedd ar 21 Medi 2021. Gosodwyd Rhaglen ddiwygiedig gerbron y Senedd ar 19 Ionawr 2024.

Adroddiadau blynyddol

5. Cafodd adroddiadau blynyddol eu llunio a'u cyflwyno gerbron y Senedd ar gyfer y cyfnodau:

    a. 21 Medi 2021 i 14 Hydref 2022 – gosodwyd yr adroddiad hwn gerbron y Senedd ym mis Tachwedd 2022.
    b. 15 Hydref 2022 i 30 Medi 2023 – cyflwynwyd yr adroddiad hwn gerbron y Senedd ym mis Tachwedd 2023.
    c. 1 Hydref 2023 i 30 Medi 2024 – gosodwyd yr adroddiad hwn gerbron y Senedd ym mis Rhagfyr 2024.

6. Ni osodwyd adroddiad blynyddol gerbron y Senedd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2024 a 30 Medi 2025. Felly, mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod hwnnw, y cyfnod o 1 Hydref 2025 hyd at ddiwedd tymor y Senedd, ac yn adrodd ar y cynnydd o gymharu â Rhaglen 2021-2026 yn ei chyfanrwydd.

Materion ychwanegol yr adroddwyd arnynt

7. Roedd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2022-23 yn cynnwys adolygiad o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, yn unol ag argymhellion Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a Phwyllgor Cyllid y Bumed Senedd[1].

8. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys, yn Atodiad A, grynodeb o'r diwygiadau a wnaed i ddeddfwriaeth Cymru er mwyn datrys amwysedd a chywiro gwallau ar gyfer y cyfnod o 13 Mai 2025 hyd at ddiwedd y Chweched Senedd.

[1] Gweler argymhelliad 6 o adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar *Fil Deddfwriaeth (Cymru)* ac argymhelliad 2 o adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar yr un Bil

Dosbarthu cyfraith Cymru

9. Dyma weithgareddau arfaethedig rhaglen 2021-2026 a'u statws ar ddiwedd tymor y Chweched Senedd mewn perthynas â dosbarthu cyfraith Cymru:

Gweithgareddau arfaethedig yn rhaglen 2021-2026	Y sefyllfa derfynol
Adolygu a diwygio'r dacsonomeg ddrafft bresennol o bynciau (a luniwyd ac yr ymgynghorwyd arni yn wreiddiol yn 2019).	Gwnaed gwaith cychwynnol i brofi'r dacsonomeg ddrafft ac i nodi'r camau nesaf, yn ogystal â datblygu ein gofynion ymarferoldeb ar gyfer legislation.gov.uk. Fodd bynnag, rhoddwyd y gorau dros dro i'r ddau weithgaredd yn ystod y rhaglen. Y rheswm cychwynnol oedd bod yr Archifau Gwladol yn blaenoriaethu gwaith arall (gan gynnwys gwella swyddogaethau eu platfform er mwyn gallu anodi testunau Cymraeg – gweler isod); ond rheswm pellach oedd bod yr Archifau Gwladol yn gweithio tuag at system dosbarthu pynciau ar gyfer yr holl ddeddfwriaeth a gyhoeddir ar wefan legislation.gov.uk, gan gynnwys cyfraith Cymru. Gweler hefyd baragraff 10 isod.
Gweithio gyda'r tîm sy'n gyfrifol am legislation.gov.uk yn yr Archifau Gwladol i ddarparu swyddogaethau ychwanegol ar y safle hwnnw fel y gall defnyddwyr gyrchu cyfraith Cymru yn ôl pwnc.	

10. Mae Rhaglen 2026-2030 yn nodi ein bwriad i weithio gyda'r Archifau Gwladol i gefnogi eu gwaith i gategoreiddio deddfwriaeth a defnyddio hynny i ddatblygu ymarferoldeb ar legislation.gov.uk.

Cydgrynhoi cyfraith Cymru

11. Dyma weithgareddau arfaethedig rhaglen 2021-2026 a'u statws ar ddiwedd tymor y Chweched Senedd mewn perthynas â chydgrynhoi cyfraith Cymru:

Gweithgareddau arfaethedig yn rhaglen 2021-2026	Y sefyllfa derfynol
Bil cydgrynhoi sy'n dod â'r gyfraith ar yr amgylchedd hanesyddol ynghyd.	Cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 y Cydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023.
Bil cydgrynhoi sy'n symleiddio ac yn moderneiddio'r gyfraith ym maes cynllunio.	Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2026 y Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ebrill 2026. Yn cyd-fynd â hi roedd Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2026, a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar yr un dyddiad.

Gweithgareddau arfaethedig yn rhaglen 2021-2026	Y sefyllfa derfynol
Bil[2] i ddiddymu neu ddatgymhwyso darpariaethau deddfwriaethol sydd wedi darfod, wedi dod i ben, neu nad ydynt bellach o ddefnydd na budd ymarferol yng Nghymru o bob cwr o'r llyfr statud.	Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Fil drafft rhwng mis Hydref 2022 a mis Rhagfyr 2023. Yn y pen draw, cafodd y gwaith hwn ei ddwyn ymlaen fel rhan o Fil ehangach, a gymeradwywyd gan y Senedd. Cafodd Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 y Cydsyniad Brenhinol ar 10 Gorffennaf 2025. Daeth y diddymiadau'n effeithiol ddeufis yn ddiweddarach.
Adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn nodi dau brosiect cydgrynhoi arall ar gyfer tymor y Senedd.	Cynhaliwyd ymarferion i ystyried addasrwydd y gyfraith sy'n ymwneud â rhandiroedd, bywyd gwyllt a choedwigaeth yn ystod ail hanner tymor y Senedd. Ym mhob achos, ystyriwyd bod angen gwneud rhagor o waith cyn y gellid gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol, a rhoddwyd blaenoriaeth i gydgrynhoi cyfraith gynllunio. Ystyriwyd meysydd eraill hefyd, er enghraifft cydgrynhoi rhannau perthnasol o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, ond fel y nodwyd mewn adroddiad cynharach, nid oedd hyn yn cael ei ystyried yn ffordd briodol ymlaen. Gofynnwyd i Gomisiwn y Gyfraith gwmpasu gwaith ar addasrwydd codeiddio cyfraith amaethyddol ar gyfer Cymru. Cyflwynwyd adroddiad ar 11 Chwefror 2026. Gweler hefyd baragraffau 13 a 14 isod.
Pecyn o is-ddeddfwriaeth i weithredu Bil yr amgylchedd hanesyddol.	Cydgysylltwyd cyfres o saith offeryn statudol ategol i ddod i rym yr un pryd â'r Ddeddf (4 Tachwedd 2024). Roedd dau ohonynt yn gwneud diwygiadau canlyniadol yn sgil y Ddeddf – un i is-ddeddfwriaeth ac un i ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r pump arall i gyd yn cynnwys cyfraith weithredol sy'n effeithio ar amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r pum set hyn o reoliadau, ynghyd â'r

[2] Yn y rhaglen wreiddiol (2021) cyfeiriwyd at hwn fel Bil cydgrynhoi, ond yn y rhaglen ddiwygiedig (2024) cadarnhawyd y byddai hwn yn Fil 'diwygio'r gyfraith'.

Gweithgareddau arfaethedig yn rhaglen 2021-2026	Y sefyllfa derfynol
	Ddeddf ei hun, yn rhan o God Amgylchedd Hanesyddol Cymru.
Prosiect graddol o gydgrynhoi is-ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref allweddol.	Dechreuwyd y gwaith i ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth er mwyn helpu i roi Deddf Cynllunio (Cymru) 2006 ar waith. Mae hon yn rhaglen waith hirdymor, o ystyried cwmpas a nifer yr offerynnau tebygol. Gweler hefyd baragraff 15 isod.
Nodi cyfleoedd eraill i gydgrynhoi a diweddaru is-ddeddfwriaeth.	Cafodd y rheolau ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru eu hail-wneud a'u diweddaru[3].
	Daeth Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 i rym ar 18 Gorffennaf 2025. Disodlodd y Gorchymyn cydgrynhoi hwn Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, a oedd wedi'i ddiwygio'n helaeth. Mae'r Gorchymyn newydd yn gwbl ddwyieithog am y tro cyntaf, yn gliriach ac yn defnyddio iaith fodern, rywedd-niwtral a hygyrch. Mae'n adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol sy'n ofynnol yn ôl Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 a Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, ac mae'n ymgorffori cynigion polisi o'r *Papur Gwyn ar Ddiwygio Etholiadol*.

12. Yn ogystal â diddymu darpariaethau nad oeddent bellach o ddefnydd na budd ymarferol, manteisiwyd ar y cyfle i ddwyn ynghyd a ffurfioli:

    a. y trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru; a
    b. y gofynion ar gyfer cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru ac offerynnau statudol Cymru, ac is-ddeddfwriaeth arall nad yw'n cael ei gwneud drwy offeryn statudol;

    a gwella hygyrchedd cyfraith Cymru drwy wneud mân ddiwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Cyflwynwyd Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) i'r Senedd ar 21 Hydref 2024 a chafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 10 Gorffennaf 2025.

13. Mae Rhaglen 2026-2030 yn nodi ein bwriad i gydgrynhoi deddfwriaeth rhandiroedd a chodeiddio deddfwriaeth rheoli bywyd gwyllt a deddfwriaeth coedwigaeth hefyd.

[3] Gweler: Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021, Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) 2021 a Rheoliadau Etholiadau Lleol (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol) (Cymru) 2022

14. Yn dilyn yr adroddiad cwmpasu cychwynnol gan Gomisiwn y Gyfraith, mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bwriad, yn Rhaglen 2026-2030, i ddechrau'r broses o gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith amaethyddol.

15. Ar 7 Awst 2006 cyhoeddodd y Llywodraeth ei rhaglen weithredu ar gyfer Deddf Cynllunio (Cymru) 2006 a'r cod cyfraith gynllunio, gan gynnwys mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth.

Codeiddio cyfraith Cymru

16. Dyma weithgareddau arfaethedig rhaglen 2021-2026 a'u statws ar ddiwedd tymor y Chweched Senedd mewn perthynas â chodeiddio cyfraith Cymru:

Gweithgareddau arfaethedig yn rhaglen 2021-2026	Y sefyllfa derfynol
Creu cod cyfraith sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.	Mae Cod cyfraith amgylchedd hanesyddol Cymru wedi'i sefydlu a daeth i rym ar 4 Tachwedd 2024.
Creu cod cyfraith sy'n ymwneud â chynllunio yng Nghymru.	Mae Cod cyfraith cynllunio Cymru wedi'i sefydlu ond nid yw wedi dod i rym eto. Gweler hefyd baragraff 15.

17. Yn ogystal, sefydlodd Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 god o gyfraith Gymreig sy'n ymwneud â thwristiaeth, gan ddod â deddfwriaeth ynghyd ar ffurf fwy hygyrch a chydlynol.

Cyfathrebu cyfraith Cymru

18. Dyma weithgareddau arfaethedig rhaglen 2021-2026 a'u statws ar ddiwedd tymor y Chweched Senedd mewn perthynas â chyfathrebu cyfraith Cymru:

Gweithgareddau arfaethedig yn rhaglen 2021-2026	Y sefyllfa derfynol
Gweithio gyda legislation.gov.uk i sicrhau bod Deddfau ac Offerynnau Statudol dwyieithog ar gael ar ffurf gyfoes yn y ddwy iaith.	Datblygodd yr Archifau Gwladol swyddogaethau platfform legislation.gov.uk er mwyn caniatáu i ddeddfwriaeth yn y Gymraeg gael ei hanodi, a chafodd carfan fach o staff Llywodraeth Cymru hyfforddiant yn hyn o beth. Aeth y prosiect yn fyw ym mis Hydref 2022 ac mae'n mynd rhagddo. Erbyn diwedd y Chweched Senedd roedd yr holl Ddeddfau a Mesurau wedi'u diweddaru, yn ogystal ag is-ddeddfwriaeth

Gweithgareddau arfaethedig yn rhaglen 2021-2026	Y sefyllfa derfynol
	a wnaed o 2019 hyd heddiw[4]. Y flaenoriaeth o hyd yw sicrhau bod y Deddfau, y Mesurau a'r offerynnau hyn yn parhau i fod yn gyfredol wrth iddynt gael eu diwygio ymhellach, ac mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i gynnwys offerynnau a wnaed cyn 2019 yn y rhaglen 'cynnal a chadw'. Mae rhai o'r offerynnau a ddefnyddir amlaf (y tu allan i'r cyfnod uchod) hefyd wedi'u blaenoriaethu ar gyfer eu diweddaru.
Ehangu a gwella cynnwys gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales yn sylweddol er mwyn creu 'siop un stop' i gyrchu a deall cyfraith Cymru.	Yn ystod cyfnod y rhaglen, cyflawnwyd nifer o ddatblygiadau swyddogaethol o ran y wefan, gan gynnwys ei throsglwyddo i blatfform newydd, cyrraedd safonau hygyrchedd penodol a datblygu swyddogaethau newydd. Crëwyd cynnwys newydd hefyd ac ehangwyd hyn yn ystod oes y rhaglen. Gweler hefyd baragraff 19 isod.
Symud draw o fodel cyhoeddi deddfwriaeth yr 20fed ganrif, sy'n seiliedig ar fersiynau print, i system ddigidol fodern. Bydd hyn yn cynnwys ystyried datrysiadau technolegol ar gyfer gweld a dehongli deddfwriaeth ddwyieithog a symud i ffwrdd o fformat brint, colofn ddeuol Offerynnau Statudol.	Dechreuodd gwaith ar opsiynau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer cofrestru, cyhoeddi a chadw is-ddeddfwriaeth yn 2023. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau gyda'r Archifau Gwladol ac fe arweiniodd yn y pen draw at Rannau 1 a 2 o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025. Rhoddwyd trefniadau cryfach ar waith hefyd ar gyfer cyhoeddi 'gorchmynion traffig ffyrdd'. Gweler hefyd baragraff 20 isod.
Cryfhau'r trefniadau i gyhoeddi (yn electronig) is-ddeddfwriaeth a wneir gan neu ar ran Gweinidogion Cymru, ar ffurf heblaw Offeryn Statudol.	Mewnosododd Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 adran 37Z newydd yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio penderfyniad ynghylch rhifo a dosbarthu is-ddeddfwriaeth Cymru o'r fath. Daeth y penderfyniad hwn yn effeithiol ar 1 Ionawr 2026. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob eitem berthnasol o is-ddeddfwriaeth gael ei rhifo, ei

[4] Ac eithrio nifer o offerynnau a oedd yn ymwneud â'r coronafeirws, gan nad ydynt mewn grym mwyach

Gweithgareddau arfaethedig yn rhaglen 2021-2026	Y sefyllfa derfynol
	dosbarthu a'i chyhoeddi ar wefan llyw.cymru os yw mewn grym. Pan nad yw mewn grym mwyach, rhaid i'r ddeddfwriaeth barhau i fod ar gael yng nghatalog cyhoeddiadau'r Llywodraeth.
Datblygu'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn llunio deddfwriaeth ddwyieithog drwy wneud y canlynol: • cyflymu'r broses o gyhoeddi terminoleg ddeddfwriaethol Gymraeg safonedig ychwanegol ar TermCymru; • nodi sut y gall system gyfieithu a chyfieithu peirianyddol newydd arfaethedig y Llywodraeth ein galluogi i weithio'n fwy effeithlon, tynnu sylw at welliannau y gellir eu gwneud i'r testun gwreiddiol, a hwyluso gwell ymgynghori ar dermau technegol; • adolygu'r canllawiau arddull mewnol i nodi cyfleoedd i wneud y testun yn gliriach ac yn fwy naturiol yn y ddwy iaith; • cytuno ar brosesau i gyfieithwyr deddfwriaethol a chwnsleriaid deddfwriaethol gydweithio i wella'r drafft gwreiddiol yn ogystal â sicrhau bod y cyfieithiad yn gywir; a • mireinio sgiliau golygyddol drwy rannu arbenigedd rhwng cyfieithwyr deddfwriaethol a chwnsleriaid deddfwriaethol.	Mae'r gwaith hwn yn parhau, ond mae'r cyflawniadau nodedig yn cynnwys: • prosiect i sicrhau cysondeb rhwng cronfeydd terminoleg; • gweithdai yn canolbwyntio ar gydweithredu rhwng cyfieithwyr a chyfreithwyr a'r ffordd y gall y broses gyfieithu helpu i wella'r testun dwyieithog; • parhau â'r prosesau safoni terminoleg sy'n gysylltiedig â phrosiectau Biliau; • caffael a chyflwyno meddalwedd cof cyfieithu a rheoli terminoleg newydd; • adolygiad llawn o'r deunyddiau cyfeirio deddfwriaethol sydd ar gael ar BydTermCymru; • sefydlu is-lot benodedig ar gyfer deddfwriaeth yn y Cytundeb Fframwaith cyfieithu ar gyfer Llywodraeth Cymru; • cyhoeddi Polisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg; • sefydlu uned newydd yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am seilwaith ieithyddol y Gymraeg; • datblygu offeryn cyfieithu peirianyddol newydd maes-benodol ar gyfer cyfiawnder a'r gyfraith gan Ganolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru; • Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) oedd y prosiect deddfwriaeth sylfaenol cyntaf i gael ei weinyddu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg; • drwy gydgrynhoi cyfraith gynllunio cyflwynwyd tua 200 o dermau newydd, diwygiedig neu wedi'u cadarnhau i

Gweithgareddau arfaethedig yn rhaglen 2021-2026	Y sefyllfa derfynol
	TermCymru. Cyhoeddwyd y termau hefyd fel rhestr annibynnol ar y dudalen "Geirfâu" ar BydTermCymru; • ychwanegwyd 100 o dermau newydd neu ddiwygiedig eraill at gronfa ddata TermCymru o ganlyniad i Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025; • ymchwil ac ymgynghori helaeth o ran sillafiad geiriau benthyg gwyddonol – h.y. geiriau benthyg ym meysydd ffiseg, bioleg a chemeg (gan gynnwys enwau elfennau a chyfansoddion cemegol) ac mewn meysydd cymhwysol cysylltiedig megis meddygaeth a pheirianneg. Bydd hyn yn gwella cysondeb mwn deddfwriaeth, a rhwng deddfwriaeth a thestunau eraill[5]; • diweddarwyd y cyflwyniad i'r Canllawiau Arddull Cyfieithu Deddfwriaethol[6] er mwyn egluro eu diben, sef bod yn ganllawiau penodol ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac Offerynnau Statudol.
Parhau i archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.	Yn gynnar yn y rhaglen, cynhaliwyd prosiect er mwyn deall mwy am y posibiliadau o ran defnyddio dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial wrth lunio deddfwriaeth. Bryd hynny nid oedd llawer o dystiolaeth o ddefnydd ehangach, ond disgwylid datblygiadau yn y dyfodol. Mae'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial wedi cynyddu'n sylweddol ym mhob rhan o'r Llywodraeth ac yn ehangach, ac mae'r gwaith yn y maes hwn yn parhau.
Adolygu a diweddaru, yn ôl yr angen: • Y Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd; • *Common Legislative Solutions*; • Drafftio deddfau i Gymru.	• Cyhoeddwyd diweddariad dros dro i'r Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd ym mis Mehefin 2024. • Cyhoeddwyd ail argraffiad o *Common Legislative Solutions* ym mis Mai 2022 a

[5] Canllawiau (yn Gymraeg yn unig) ar gael ar BydTermCymru
[6] Gweler BydTermCymru

Gweithgareddau arfaethedig yn rhaglen 2021-2026	Y sefyllfa derfynol
	diwygiadau pellach ym mis Chwefror 2026. • Parhaodd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol i gynnal cyfarfodydd mewnol rheolaidd i drafod materion drafftio cyffredinol; nid oedd y rhain yn arwain at yr angen i wneud newidiadau ar unwaith i'r canllawiau drafftio ffurfiol. • Dechreuodd adolygiad rhannol o *Drafftio Deddfau i Gymru* yn 2023, fodd bynnag rhoddwyd y gorau i hwn dros dro a dechreuwyd adolygiad llawn cyn diwedd y Chweched Senedd. Gweler hefyd baragraff 21. • Lluniwyd canllawiau mewnol yn ymwneud â newidiadau a ddaeth yn sgil Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 i gefnogi'r broses o roi'r newidiadau ar waith. Bydd peth o'r gwaith hwn yn parhau i fod o ddefnydd, a bydd yn cael ei gynnwys yn y diweddariad nesaf i'r Llawlyfr Deddfwriaeth ar Is-ddeddfwriaeth.
Llunio a chyhoeddi canllawiau ychwanegol ar y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â llunio Biliau cydgrynhoi.	Mae'r prosiect wedi'i ohirio yn sgil adolygiad posibl o Reol Sefydlog 26C gan y Senedd.

19. Cafodd gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales ei chau a symudwyd y cynnwys allweddol i blatfform llyw.cymru ar 21 Awst 2026. Mae Rhaglen 2026-20 yn egluro mai gwefan y Llywodraeth fydd y prif ddull cyhoeddi ar gyfer gwybodaeth a chanllawiau ynghylch cyfraith Cymru.

20. Mae Rhaglen 2026-30 yn cadarnhau y bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r Archifau Gwladol wrth iddynt barhau i ddatblygu platfform legislation.gov.uk.

21. Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol oedd yn gyfrifol am gynnal cynhadledd Ewropeaidd Cymdeithas Cwnsleriaid Deddfwriaethol y Gymanwlad ym mis Mai 2023. Daeth 140 o gynrychiolwyr o bedwar ban byd i'r digwyddiad hwn, a oedd yn canolbwyntio ar hygyrchedd y gyfraith ac eglurder wrth ddrafftio deddfwriaeth. Cynhaliwyd prosiect cydweithredol rhwng pedair swyddfa ddrafftio'r DU hefyd rhwng 2023 a 2024, i ystyried materion yn ymwneud â drafftio sy'n codi yn y DU.

Prosiectau a materion eraill i'w nodi

22. Dyma weithgareddau arfaethedig rhaglen 2021-2026 a'u statws ar ddiwedd tymor y Chweched Senedd mewn perthynas â phrosiectau a materion eraill o bwys:

Gweithgareddau arfaethedig yn rhaglen 2021-2026	Y sefyllfa derfynol
Gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr i nodi un neu fwy o brosiectau sy'n ymwneud â chyfraith Cymru	Cafodd cwmpas prosiect Comisiwn y Gyfraith i adolygu'r gyfraith ar ddirmyg troseddol a sifil ei ehangu i gynnwys y Tribiwnlysoedd datganoledig. Cyfeiriodd Gweinidogion Cymru brosiect at Gomisiwn y Gyfraith i ystyried a ellid moderneiddio a symleiddio cyfraith amaethyddol yng Nghymru a'i gwneud yn fwy hygyrch drwy gydgrynhoi a chodeiddio, ac os felly, sut. Cyflwynwyd adroddiad ar y prosiect hwn ar 11 Chwefror 2026. Parhawyd i gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y gwaith o roi argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar waith[7].
Ymgynghori ynghylch newidiadau posibl i ffurf a strwythur deddfwriaeth Cymru, gan gynnwys mewn perthynas â'r canlynol: a. a oes angen enw 'hir' ac enw 'byr' ar Fil/Deddf y Senedd; b. darpariaethau trosolwg ym Miliau/Deddfau'r Senedd; c. symleiddio neu hepgor y geiriau deddfu yn Neddfau'r Senedd; d. y defnydd a'r disgrifiadau o ddyddiadau yn Neddfau'r Senedd (er enghraifft, mewn perthynas â dyddiad y Cydsyniad Brenhinol); e. mabwysiadu cymhorthion llywio yn Neddfau'r Senedd, ac Offerynnau Statudol Cymru hefyd o bosibl, megis ychwanegu penynnau at y ddogfen i ddangos y Rhan neu'r Atodlen berthnasol;	Cafodd nifer o'r materion hyn eu rhoi ar waith yn y pen draw drwy ffrydiau gwaith gwahanol, gan gynnwys: • mabwysiadu mân newidiadau i'r ffordd y cyflwynir yr enw byr ym Miliau Cymru yn 2025; • mabwysiadu cymhorthion llywio gwell mewn Biliau fel rhan o'r broses o ddatblygu meddalwedd drafftio deddfwriaethol newydd; • mabwysiadu ffurfdeip newydd ar gyfer offerynnau statudol Cymru fel rhan o newidiadau i fformat deddfwriaeth o'r fath. Datblygwyd meddalwedd drafftio deddfwriaethol newydd ar gyfer llunio offerynnau statudol Cymru yn 2025 a chafodd ei mabwysiadu ar gyfer cyflwyno offerynnau statudol Cymru ar 1 Ionawr 2026. Dechreuodd gwaith hefyd yn ystod y Chweched Senedd (ac mae'n parhau yn ystod tymor y Senedd bresennol) i

[7] Ym mis Chwefror 2022, mis Chwefror 2023, mis Chwefror 2024, mis Mai 2025 a mis Chwefror 2026

Gweithgareddau arfaethedig yn rhaglen 2021-2026	Y sefyllfa derfynol
f. y ffurfdeip a ddefnyddir yn Neddfau'r Senedd ac yn Offerynnau Statudol Cymru; g. mabwysiadu dulliau sy'n cefnogi gwella hygyrchedd digidol ac argraffedig.	ddatblygu'r un feddalwedd i lunio, diwygio a rheoli Biliau'r Senedd. Mae'r ddau brosiect yn cefnogi'r broses o lunio a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru o'r dechrau i'r diwedd.

Datrys amwysedd a chywiro gwallau mewn deddfwriaeth

23. Wrth i'r Senedd ystyried y Bil a ddaeth yn Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025, cafodd darpariaeth ei chynnwys yn y Bil i ddiwygio adran 2 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

24. Fel y'i diwygiwyd erbyn hyn, mae adran 2(3) o Ddeddf 2019 yn golygu bod rhaid i bob rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru hefyd wneud darpariaeth i gywiro unrhyw wallau a datrys unrhyw amwysedd yng nghyfraith Cymru. Daeth y diwygiad hwn i rym ar ddechrau'r Senedd bresennol, ac mae Rhaglen 2026-2030 yn cynnwys gweithgareddau ar y mater hwn.

25. Bydd adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn manylu ar y cynnydd a wnaed o ran y gweithgareddau hynny, ond yn unol ag ymrwymiad a roddwyd gan y Cwnsler Cyffredinol (ar y pryd) wrth ystyried y Bil, mae Atodiad A o'r adroddiad hwn yn crynhoi diwygiadau a wnaed i ddeddfwriaeth Cymru y bwriedid iddynt ddatrys amwysedd a chywiro gwallau. Mae'r rhain yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 13 Mai 2025 a diwedd y Chweched Senedd.

Atodiad A – Datrys amwysedd a chywiro gwallau

Nodiadau:

- Yn y tabl ystyr "Dyddiad" yw'r dyddiad y cyhoeddwyd y slip cywiro neu y gwnaed yr offeryn diwygio (gall fod y diwygiad wedi dod i rym ar ddyddiad hwyrach na dyddiad gwneud yr offeryn)
- Mae cyfeiriadau at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gyfeiriadau at y Pwyllgor hwnnw yn y Chweched Senedd

Dyddiad	Dull cywiro	Deddfwriaeth wedi'i chywiro		Esboniad
22/05/2025	Slip cywiro wedi'i gyhoeddi	Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025	OS 2025/293 (Cy. 93)	Cyhoeddwyd slip cywiro
18/06/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024	OS 2024/782 (Cy. 121)	Cywirwyd gwallau a datryswyd amwyseddau yn Rheoliadau 2024 gwreiddiol gan Reoliadau Caffael (Cymru) (Diwygio) 2025 (OS 2025/707 (Cy. 120)). Gwnaeth Rheoliadau 2025 hefyd gywiro gwallau yn Rheoliadau 2024 a gyflwynwyd gan Reoliadau Caffael (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/181 (Cy. 38)). Roedd y ddwy set o Reoliadau 2025 hefyd yn gwneud darpariaeth arall
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003	OS 2003/3227 (Cy. 308)	Diwygiwyd Rheoliadau 2003 gan Reoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024 (OS 2024/316 (Cy. 56)), ond cyflwynodd hyn wall[8]. Cywirwyd Rheoliadau 2003 wedyn gan Reoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/805 (Cy. 142)) a wnaeth ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall hefyd

[8] gweler Pwynt adrodd 3 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau 2024

Dyddiad	Dull cywiro	Deddfwriaeth wedi'i chywiro		Esboniad
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007	OS 2007/2611 (Cy. 222)	Diwygiwyd Rheoliadau 2007 gan Reoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024 (OS 2024/1045 (Cy. 173)), ond cyflwynodd hyn wallau[9]. Cywirwyd Rheoliadau 2007 wedyn gan Reoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/805 (Cy. 142)) a wnaeth ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall hefyd
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011	OS 2011/656 (Cy. 94)	Diwygiwyd Rheoliadau 2011 gan Reoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2024 (OS 2024/339 (Cy. 63)), ond cyflwynodd hyn wall[10]. Cywirwyd Rheoliadau 2011 wedyn gan Reoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/805 (Cy. 142)) a wnaeth diwygiadau i ddeddfwriaeth arall hefyd
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012	OS 2012/801 (Cy. 110)	Diwygiwyd Gorchymyn 2012 gan Orchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 (OS 2025/400 (Cy. 80)) ond cyflwynodd hyn wall[11]. Cywirwyd Gorchymyn 2012 wedyn gan Orchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/815 (Cy. 145)) a wnaeth ddiwygiad pellach i Orchymyn 2012 ac a ddiwygiodd ddeddfwriaeth arall hefyd

[9] gweler Pwyntiau adrodd 2, 3, 4, 5 a 6 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau 2024
[10] gweler Pwynt adrodd 2 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau 2024
[11] gweler Pwynt adrodd 1 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Orchymyn 2025

Dyddiad	Dull cywiro	Deddfwriaeth wedi'i chywiro		Esboniad
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015	OS 2015/1844 (Cy. 272)	Diwygiwyd Rheoliadau 2015 gan Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 (OS 2025/151 (Cy. 31)), ond cyflwynodd hyn wall[12]. Cywirwyd Rheoliadau 2015 wedyn gan Reoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/805 (Cy. 142)) a wnaeth ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall hefyd
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016	OS 2016/55 (Cy. 25)	Diwygiwyd Gorchymyn 2016 gan Orchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 (OS 2025/400 (Cy. 80)) ond cyflwynodd hyn wall[13]. Cywirwyd Gorchymyn 2016 wedyn gan Orchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/815 (Cy. 145)) a ddiwygiodd ddeddfwriaeth arall hefyd
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018	OS 2018/645 (Cy. 119)	Diwygiwyd Gorchymyn 2018 gan Orchymyn Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2024 (OS 2024/1109 Cy. 185)), ond cyflwynodd hyn wall.[14] Cywirwyd Gorchymyn 2012 wedyn gan Orchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/815 (Cy. 145)) a ddiwygiodd ddeddfwriaeth arall hefyd

[12] gweler Pwynt adrodd 2 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau 2025
[13] gweler adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Orchymyn 2025
[14] gweler Pwynt adrodd 1 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Orchymyn 2024

Dyddiad	Dull cywiro	Deddfwriaeth wedi'i chywiro		Esboniad
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021	OS 2021/77 (Cy. 20)	Diwygiwyd Rheoliadau 2021 gan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2023 (OS 2023/1393 (Cy. 247)), ond cyflwynodd hyn wall[15]. Ystyriwyd slip cywiro yn wreiddiol, ond yn y pen draw cywirwyd Rheoliadau 2021 gan Reoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/805 (Cy. 142)) a wnaeth ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall hefyd
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau'r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023	OS 2023/1303 (Cy. 233)	Cywirwyd gwall a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (gweler Pwynt adrodd 3) gan Reoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/805 (Cy. 142)) a wnaeth ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall hefyd
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024	OS 2024/135 (Cy. 29)	Cywirwyd gwallau a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (gweler Pwyntiau Adrodd 2, 4, 5 a 6) gan Reoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/805 (Cy. 142)) a wnaeth ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall hefyd
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Cyfranogiad mewn Rheoli) (Cymru) 2024	OS 2024/28 (Cy. 11)	Cywirwyd gwall a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (gweler Pwynt adrodd 1) gan Reoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/805 (Cy. 142)) a wnaeth ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall hefyd

[15] gweler Pwynt adrodd 3 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau 2023

Dyddiad	Dull cywiro	Deddfwriaeth wedi'i chywiro		Esboniad
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024	OS 2024/767 (Cy. 112)	Cywirwyd gwallau a datryswyd amwyseddau a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Pwyntiau adrodd 3, 5, 7, 10, 11, 14, 15, 16 a 17) gan Orchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/815 (Cy. 145)) a ddiwygiodd ddeddfwriaeth arall hefyd (ac a wnaeth ddiwygiad pellach i Orchymyn 2024)
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Bara a Blawd (Cymru) 2025	OS 2025/88 (Cy. 22)	Cywirwyd gwallau a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (gweler Pwyntiau adrodd 1, 3, 4 a 5) gan Reoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/805 (Cy. 142)) a wnaeth ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall hefyd
06/07/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003	OS 2003/3246 (Cy. 321)	Diwygiwyd Rheoliadau 2003 gan Reoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024 (OS 2024/316 (Cy. 56)), ond cyflwynodd hyn wall[16]. Cywirwyd Rheoliadau 2003 gan Reoliadau Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Cywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/805 (Cy. 142)) a wnaeth ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall hefyd
29/07/2025	Slip cywiro wedi'i gyhoeddi	Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2025	OS 2025/728 (Cy. 125)	Cyhoeddwyd slip cywiro

[16] gweler Pwynt adrodd 3 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau 2024

Dyddiad	Dull cywiro	Deddfwriaeth wedi'i chywiro		Esboniad
14/10/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025	OS 2025/690 (Cy. 114)	Cywirwyd gwallau a datryswyd amwyseddau gan Reoliadau Cydsyniad Seilwaith (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/1091 (Cy. 181))
14/10/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru) 2025	OS 2025/691 (Cy. 115)	Cywirwyd gwallau a datryswyd amwyseddau gan Reoliadau Cydsyniad Seilwaith (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/1091 (Cy. 181))
14/10/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Archwilio a Phenderfynu) (Gweithdrefn) (Cymru) 2025	OS 2025/692 (Cy. 116)	Cywirwyd gwallau a datryswyd amwyseddau gan Reoliadau Cydsyniad Seilwaith (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 (OS 2025/1091 (Cy. 181))
12/12/2025	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013	OS 2013/1984 (Cy. 194)	Cywirwyd gwallau gan Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025 (OS 2025/1343 (Cy. 219)), a oedd hefyd yn gwneud darpariaeth arall
13/01/2026	Slip cywiro wedi'i gyhoeddi	Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025	2025 dsc 1	Cyhoeddwyd slip cywiro
13/01/2026	Slip cywiro wedi'i gyhoeddi	Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025	2025 dsc 3	Cyhoeddwyd slip cywiro

Dyddiad	Dull cywiro	Deddfwriaeth wedi'i chywiro		Esboniad
19/01/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth Etholiadau Cymreig 2025	OS 2025/331 (Cy. 66)	Cywirwyd gwall a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (gweler Pwynt adrodd 1) gan Reoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (Diwygiadau) 2026 (OSC 2026/9) a wnaeth ddiwygiadau eraill i Reoliadau 2025 hefyd
29/01/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023	OS 2023/953 (Cy. 155)	Diwygiwyd Rheoliadau 2023 gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023 (OS 2023/1421 (Cy. 250)), ond cyflwynodd hyn wallau[17]. Cywirwyd Rheoliadau 2023 gwreiddiol wedyn gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2026 (OSC 2026/17) a wnaeth ddiwygiadau eraill i'r Rheoliadau gwreiddiol hefyd
31/01/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Gorchymyn Deddf Adeiladu 1984 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2025	OS 2025/1367 (Cy. 224) (C. 79)	Cywirwyd gwallau a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan Reoliadau Deddf Adeiladu 1984 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 1) a Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygio Rheoliadau Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2026 (OSC 2026/20)
31/01/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2025	OS 2025/1368 (Cy. 225) (C. 80)	Cywirwyd gwallau a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan Reoliadau Deddf Adeiladu 1984 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 1) a Deddf Diogelwch Adeiladau 2022

[17] gweler Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Rheoliadau diwygio 2023

Dyddiad	Dull cywiro	Deddfwriaeth wedi'i chywiro		Esboniad
				(Diwygio Rheoliadau Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2026 (OSC 2026/20)
11/02/2026	Wedi'i ddirymu a'i amnewid	Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026	OSC 2026/2	Dirymwyd y Rheoliadau gwreiddiol ac fe'u hamnewidiwyd gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026 (OSC 2026/38)
17/02/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026	OSC 2026/37	Cywirwyd gwallau penodol gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Diwygio) (Cymru) 2026 (OSC 2026/49)
03/03/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026	OSC 2026/31	Cywirwyd gwallau a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Pwyntiau adrodd 1 a 2) gan Reoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) (Diwygio) 2026 (OSC 2026/59)
04/03/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Gorchymyn Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 2) 2025	OS 2025/1306 (Cy. 212) (C. 68)	Datryswyd amwyseddau yng Ngorchymyn 2025 drwy Orchymyn Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 2) 2026 (OSC 2026/68)
17/03/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017	OS 2017/567 (Cy. 136)	Diwygiwyd Rheoliadau 2017 gan Reoliadau Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Darpariaethau Canlyniadol, Darpariaeth Drosiannol, Darpariaeth Ddirymu a Darpariaeth Arbed) 2025 (OSC 2025/1192 (Cy. 193)), ond cyflwynwyd mân wallau mewn cysylltiad â rhai o'r diwygiadau. Cywirwyd Rheoliadau 2017 wedyn gan

Dyddiad	Dull cywiro	Deddfwriaeth wedi'i chywiro		Esboniad
				Reoliadau Cydsyniad Seilwaith (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) (Cymru) 2026 (OSC 2026/85)
17/03/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Darpariaethau Canlyniadol, Darpariaethau Drosiannol, Darpariaethau Ddirymu ac Darpariaethau Arbed) 2025	OS 2025/1192 (Cy. 193)	Cywirwyd gwallau a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac fe'u datryswyd gan Reoliadau Cydsyniad Seilwaith (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) (Cymru) 2026 (OSC 2026/85)
17/03/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025	OS 2025/690 (Cy. 114)	Cywirwyd gwall a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan Reoliadau Cydsyniad Seilwaith (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) (Cymru) 2026 (OSC 2026/85)
17/03/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2025	OS 2025/887 (Cy. 154)	Cywirwyd gwall gan Reoliadau Cydsyniad Seilwaith (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) (Cymru) 2026 (OSC 2026/85)
23/03/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020	OS 2020/1073 (Cy. 241)	Diwygiwyd Rheoliadau 2020 gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 (OS 2025/285 (Cy. 57)), ond cyflwynodd hyn wallau[18]. Felly, cywirwyd Rheoliadau 2020 gwreiddiol gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2026 (OSC 2026/92) a

[18] gweler Pwyntiau adrodd 1 a 2 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau 2025

Dyddiad	Dull cywiro	Deddfwriaeth wedi'i chywiro		Esboniad
				wnaeth ddiwygiadau eraill i'r Rheoliadau gwreiddiol hefyd
23/03/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2026	OSC 2026/52	Cywirwyd gwall drwy Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) (Diwygio) 2026 (OSC 2026/90)
24/03/2026	Offeryn diwygio wedi'i wneud	Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2025	OS 2025/1361 (Cy. 223)	Aed i'r afael ag amwysedd a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad drwy ddiwygiad a wnaed yn Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2026 (OSC 2026/97)